**CYD-BWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL**
**COFNODION**

Dydd Iau, 14 Rhagfyr 2023 – Ystafell Gyfarfod 6 PLC, Pencadlys yr Heddlu, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU

**1a. Yn bresennol**

Dr John William Devine (Cadeirydd)
Mr Mike Lewis (Is-gadeirydd)
Dr Jacqueline Gantley
Ms Claire Corrigan
Mrs Bronwen Williams
Mr Joga Singh

Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Danny Richards
Mr Lee Jones
Ms Jayne Woodward
Ms Nia Brennan
Y Ditectif Arolygydd Matthew Hicks
Mr Martyn Jones
Y Prif Uwch-arolygydd Mark Lenihan
Yr Arolygydd Sian O'Shea
Ms Lucy Durnell
Ms Amy Davies

**Cyflwynwyr Gwadd:**

**Gofal Cywir Person Cywir**
Yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis – *Cyflwynydd*

**Technoleg adnabod wynebau a gychwynnir gan weithredwr (OIFR)**
Yr Arolygydd Ben Gwyer – *Cyflwynydd*

**Ymddiheuriadau:**
Y Prif Arolygydd Donna Llewellyn
Y Ditectif Arolygydd Jack Wiskerd
Y Rhingyll Jennifer Owen
Ms Carol Woodward

**2. Cyflwyniadau a Chroeso – Y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod a chyflwynodd y cyfyng-gyngor ynglŷn â 'Gofal Cywir Person Cywir' a 'Thechnoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr'.

**3. Cofnodion a Chamau Gweithredu 08/06/2023 – Y Cadeirydd**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 21 Medi 2023 a'r Adroddiad Blynyddol.

| Rhif y Cam Gweithredu | Camau Gweithredu Blaenorol | Perchennog | Statws/ Diweddariad |
|---|---|---|---|
| 10.06.2021.1 | John William Devine, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Travis a Lee Jones i ystyried a yw gwaith ychwanegol sy'n cael ei wneud gan aelodau'r Pwyllgor er budd y Pwyllgor yn cael ei gydnabod a'i ariannu a sut mae'n cael ei gydnabod a'i ariannu. | John William Devine | **Diweddariad 19.09.2021:** John William Devine i gyfarfod â'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Travis a Lee Jones i drafod cydnabyddiaeth i aelodau sy'n gwneud gwaith ychwanegol (ar ben eu gwaith pwyllgor arferol) er budd y Pwyllgor.<br>**Diweddariad 17.12.2021:** Sgyrsiau i'w cynnal ynghylch cydnabod gwaith a gwblheir gan aelodau'r Pwyllgor.<br>**Diweddariad 31.03.2022:** Cyfarfu'r Cadeirydd â'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Travis a Lee Jones i drafod mater cydnabyddiaeth i aelodau o'r pwyllgor sy'n gwneud gwaith ymchwil ar ben eu rôl ar y pwyllgor. Caiff yr eitem hon ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.<br><br>**Diweddariad 29.06.2022:** Roedd y Cadeirydd wedi trafod y cam gweithredu hwn â'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Travis a Lee Jones yn flaenorol. Roedd dwy elfen i'w trafodaethau: cydnabyddiaeth a sefydlu panel cynghori. Yn absenoldeb Lee Jones a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Travis, bydd y panel cynghori'n cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf. Trafodwyd cydnabyddiaeth dan unrhyw fater arall.<br><br>**Diweddariad 08.12.2022:** Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o sefydlu grŵp cynghori arbenigol o dan Unrhyw Fater Arall. |

| Rhif y Cam Gweithredu | Camau Gweithredu Blaenorol | Perchennog | Statws/ Diweddariad |
|---|---|---|---|
| | | | **Diweddariad 10.03.2023:**<br>Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o sefydlu grŵp cynghori arbenigol, ac fe'i cymeradwywyd mewn egwyddor. Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod â Lee Jones yn y dyddiau nesaf, a bydd y Cadeirydd yn tynnu ei sylw at y mater hwn.<br><br>**Diweddariad 08.06.2023:**<br>Mae'r Cadeirydd yn aros am ddiweddariad.<br><br>**Diweddariad 21.09.2023:**<br>Trafododd y Cadeirydd a Lee Jones yr angen am banel cynghori arbenigol. Cytunodd y ddau nad oedd angen ffurfio panel o'r fath fel mater brys, o ystyried yr ystod o sgiliau a chefndiroedd proffesiynol oedd gan aelodau'r Pwyllgor, a'r ffaith bod modd ceisio arbenigedd ychwanegol yn ôl yr angen.<br><br>**Cyflawnwyd y cam gweithredu hwn.** |

**4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod**

**4.1 Gofal Cywir Person Cywir**

Rhannodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis gyflwyniad ar ddull gweithredu 'Gofal Cywir Person Cywir'. Rhaglen waith genedlaethol yw hon, a'i phrif nod yw sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir pan fydd ei angen arnynt, drwy sicrhau mynediad at wasanaethau cymorth a thriniaeth priodol. Mae'r heddlu yn aml yn cael galwadau nad ydynt yn ymwneud â throseddau a amheuir nac unrhyw risg wirioneddol neu uniongyrchol i fywyd, y gallai asiantaethau eraill ymdrin â nhw'n well ac a allai ddargyfeirio adnoddau oddi wrth swyddogaethau a blaenoriaethau allweddol plismona craidd lle mai'r heddlu yw'r asiantaeth gywir i ymateb. Gofynnir i'r heddlu gynnal "gwiriadau lles" yn aml. Unwaith y bydd gwiriad o'r fath wedi'i gynnal, fel arfer rhoddir diweddariad i'r person neu'r asiantaeth sydd wedi cysylltu â'r heddlu. Fodd bynnag, nid mesur sydd wedi'i anelu at arbed amser yr heddlu yw Gofal Cywir Person Cywir. Ei phrif nod yw sicrhau bod pobl y mae angen cymorth gan y gwasanaethau brys arnynt yn cael y gofal gorau posibl gan y gwasanaeth mwyaf priodol. Gwelir llawer o achosion lle mae swyddogion yr heddlu yn cael eu galw i ymdrin â'r hyn sy'n broblemau meddygol neu ofal cymdeithasol yn y bôn. Mae'n bosibl y bydd swyddogion yn ymdrin â galwadau o'r fath heb yr hyfforddiant na'r arbenigedd cywir i helpu'r unigolyn dan sylw, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Arweinir Gofal Cywir Person Cywir gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, gyda chanllawiau gan y Coleg Plismona. Cafodd y fenter hon ei threialu gan Heddlu Humberside i ddechrau. Nid yw'r dull gweithredu yn effeithio ar ddyletswydd yr heddlu i ymateb pan fydd trosedd wedi digwydd, neu pan fydd angen i'r heddlu helpu i reoli bygythiad, risg neu wrthdaro. Nid yw ychwaith yn newid y gofyniad ar swyddogion yr heddlu i arfer eu pwerau statudol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Bydd yr heddlu yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau plismona craidd: atal a chanfod troseddau, cadw heddwch y brenin, a diogelu bywydau ac eiddo.

Esboniodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis ddyletswyddau cyfreithiol yr heddlu o dan yr amgylchiadau cyffredinol canlynol:

- *Bygythiad gwirioneddol ac uniongyrchol i fywyd*
- *Bygythiad gwirioneddol ac uniongyrchol o niwed/artaith/triniaeth annynol ddifrifol*
- *Dyletswyddau gofal o dan gyfraith gyffredin*
- *Dyletswyddau statudol penodol: Arestio, cadw'n gaeth, atal yn gorfforol.*

Ymhelaethodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis ar ddyletswyddau cyfreithiol yr heddlu:
Oni chyrhaeddir y trothwy uchod, **nid oes unrhyw ddyletswydd** ar yr heddlu i weithredu oni bai bod yr heddlu wedi ymgymryd â chyfrifoldeb penodol i ddiogelu person penodol rhag niwed neu oni bai bod amgylchiadau yn bodoli pan fydd yr heddlu wedi ymgymryd â dyletswydd i weithredu.
Ymhelaethodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis ar ddyletswydd gofal Deddf Hawliau Dynol 1988:
*Gall fod dyletswyddau ar yr heddlu o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i ddiogelu unigolion rhag niwed a achosir gan eraill neu niwed a achosir gan y person ei hun. Mae cyfrifoldeb ar yr heddlu i gymryd yr holl gamau rhesymol i gynorthwyo pan fo naill ai:*

- *risg wirioneddol ac uniongyrchol i fywyd person (Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol)*
- *risg wirioneddol ac uniongyrchol y bydd y person hwnnw yn cael niwed difriol neu driniaeth annynol arall (Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol)*

Esboniodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis y dylai fod ystyriaethau ychwanegol wrth ymdrin â phlant a phobl ifanc:

- *Cyflwynodd Deddf Plant 1989 Niwed Sylweddol fel y trothwy sy'n cyfiawnhau ymyriad gorfodol mewn bywyd teuluol er budd pennaf plant.*
- *Er enghraifft: Mae Cam-drin Corfforol, Cam-drin Rhywiol, Cam-drin Emosiynol ac Esgeulustod* ***i gyd yn gategorïau o Niwed Sylweddol****.*

**4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod**

Nododd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis mai dim ond at ddibenion achub bywyd neu atal anaf neu ddifrod difrifol i eiddo y mae gan yr heddlu bŵer o dan A17(1)(e) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i fynd i mewn i fangre a'i chwilio, ac y golyga hyn fod cyfyngiadau ar yr heddlu o ran ei allu i helpu wrth ymdrin â galwadau lles. Drwy dderbyn y risg, mae'r heddlu wedyn yn amlygu swyddogion i amgylchiadau lle y bydd angen iddynt gael mynediad drwy rym a heb warant, a thrwy hynny eu hamlygu i atebolrwydd am dorri adran 17 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

Gweler isod y model cenedlaethol, a fydd yn cael ei orfodi fesul cam:




Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis drosolwg o'r diagram uchod, gan nodi bod Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitanaidd wedi gweithredu pob un o'r pedwar cam ar 1 Tachwedd 2023, ond bod Heddlu De Cymru ar Gam 0 ar hyn o bryd ac y byddai'n symud i Gam 1 ar ddiwedd mis Chwefror 2024 ar ôl ymgysylltu'n llawn â phartneriaid. Wedyn, rhoddwyd Map Ffordd ar gyfer Heddlu De Cymru:




Yn seiliedig ar y fenter uchod, cyflwynodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis y senarios isod i'r aelodau annibynnol i'w trafod:

*1. Mae dyn a aeth i'r ysbyty oherwydd gorddos wedi cael triniaeth ond wedi gadael yr ysbyty cyn y gallai'r staff dynnu'r canwla o'i fraich. Rydym yn pryderu y bydd yn ei ddefnyddio i roi cyffuriau iddo'i hun.*

Codwyd y cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- A fyddai hyn yn dod o dan Erthygl 2 gan yr ymddengys fod bygythiad uniongyrchol i fywyd?

Nid oes bygythiad uniongyrchol i fywyd oherwydd "gallai'r" unigolyn yn rhoi cyffuriau iddo'i hun.

- Pe bai unrhyw beth yn digwydd i'r unigolyn dan sylw, a bod gan yr heddlu yr holl wybodaeth a roddir, ble mae'r cyfrifoldeb?

Byddai'r ateb yn dibynnu ar yr achos penodol, ond yn ôl y ffeithiau a gyflwynir yma, y bwrdd iechyd fyddai'n gyfrifol gan mai nhw yw'r asiantaeth hysbys ddiwethaf i fod yn gyfrifol am yr unigolyn.

- Ai hwn yw'r unig bryder, neu a oes unrhyw risgiau eraill yn codi am fod cyfarpar ym mhraich yr unigolyn?

Ni chodwyd unrhyw bryderon eraill.

- A oes unrhyw gytundebau ag asiantaethau partner ar waith?

Ymgynghorwyd yn llawn ag asiantaethau partner er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o Gofal Cywir Person Cywir. Cedwir rhestr o'r rhain.

- Os yw'r unigolyn yn hysbys i asiantaethau eraill, a yw'r heddlu yn cael mynediad at y cysylltiadau hynny?

**4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod**

Mae'r heddlu yn cael mynediad at rywfaint o wybodaeth, ond mae'n dibynnu a yw'r asiantaeth ar gael (gan nad yw'r rhan fwyaf o asiantaethau yn gweithio y tu allan i oriau gwaith craidd h.y., dydd Llun i ddydd Gwener 9am – 5pm).

- A allai'r heddlu gysylltu ag asiantaethau eraill ar ran yr unigolyn?

Mewn achosion lle nad yw cyfrifoldeb wedi'i dderbyn yn glir, erys y ddyletswydd gofal ar yr asiantaeth bartner neu'r unigolyn dan sylw ac mae'n bwysig bod yr heddlu yn defnyddio iaith glir wrth atgyfeirio unigolyn at yr asiantaeth orau i'w helpu.

- Ai dim ond ar ôl i'r unigolyn gymryd gorddos arall y byddai'r bwrdd iechyd ynghlwm wrth y mater?

Dylai'r bwrdd iechyd wedyn fod mewn sefyllfa i allu cyfeirio'r unigolyn yn gywir at wasanaethau er mwyn atal achosion o orddosio eto.

- A oes posibilrwydd o gydweithio rhwng yr heddlu ac asiantaethau eraill, megis yr heddlu yn defnyddio teledu cylch cyfyng i ddod o hyd i'r unigolyn ac yna hysbysu gwasanaethau iechyd i ymateb?

Mae hyn yn digwydd, ond mae'n rhaid i swyddogion yr heddlu fod yn glir ynglŷn â'r graddau y maent yn ymwneud â'r achos ac nad ydynt yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb am yr unigolyn.

Eglurodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis, os bydd yr heddlu yn cael galwad lles ar ôl i glaf ryddhau ei hun yn wirfoddol o'r ysbyty y bydd yr heddlu yn ymateb mewn un o'r tair ffordd hyn:

- Bydd yr heddlu yn ymateb. Bydd yr heddlu yn ymgymryd â chyfrifoldeb y ddyletswydd gofal.
- Ni fydd yr heddlu yn ymateb.
- Gall yr heddlu ymateb, ond bydd angen mwy o wybodaeth e.e. a gysylltwyd ag asiantaethau eraill, beth yw hanes y claf, a oes perthnasau y gellir cysylltu â nhw ac ati.

Gofynnodd y Prif Arolygydd Matthew Hicks a fydd hyn yn effeithio ar y newidiadau presennol i'r polisi ynglŷn ag unigolion coll. Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis na fydd y polisi ynglŷn ag unigolion coll yn newid.

Esboniodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis, unwaith y bydd y fenter wedi'i chymeradwyo, y bydd mwy o gyfathrebu â'r holl asiantaethau brys er mwyn nodi'n glir y lefel ofynnol o ymholiadau y mae'n rhaid eu gwneud cyn atgyfeirio achos at yr heddlu, h.y., cysylltwyd ag asiantaethau eraill, beth yw hanes y claf hwn, a oes perthnasau y gellir cysylltu â nhw ac ati.

Nododd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis sut y bydd yr heddlu yn pontio i'r polisi newydd hwn;

- Cynhaliwyd/cynhelir sesiynau briffio ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus, partneriaethau diogelwch cymunedol a byrddau diogelu rhanbarthol.
- Cynhaliwyd sesiynau briffio gydag awdurdodau iechyd lleol ac awdurdodau lleol ar lefel yr heddlu.
- Cynhaliwyd sesiynau briffio â gweinidogion drwy drefniadau cydweithio Cymru gyfan.
- Mae'r heddu wedi hysbysu asiantaethau Cymru gyfan megis Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac wedi ymgysylltu â nhw.
- Mae asesiadau o'r effaith ar bartneriaethau yn cael eu cynnal.
- Mae trafodaethau ynglŷn â pherchnogaeth leol yn mynd rhagddynt.

Gofynnodd y Pwyllgor o ble y daw'r cyllid i'r asiantaethau eraill i'w galluogi i weithredu. Nid yw'r heddlu yn ymwybodol o unrhyw gyllid ychwanegol i asiantaethau eraill ond pwysleisiwyd y pwynt y byddwn yn parhau i ymateb lle mae dyletswydd ar yr heddlu i ymateb ac felly na fwriedir gofyn i asiantaethau eraill ddarparu gwasanaethau mewn meysydd y dylai'r heddlu fod yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, rhoddodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis sicrwydd i'r Pwyllgor fod y fenter wedi cael derbyniad da ymhlith yr holl asiantaethau. Nod y fenter hon yw sicrhau bod asiantaethau yn ymateb i alwadau pan fyddant yn fwy cymwys i wneud hynny, ac nid rhyddhau amser yr heddlu ar gyfer dyletswyddau craidd eraill sy'n sbardun i'r fenter hon.
Nodwyd bod yr heddlu wedi achosi'r broblem gychwynnol hon o bosibl drwy ymateb i alwadau nad ydynt yn dod o dan ddyletswyddau'r heddlu, a thrwy hynny greu'r 'galluogrwydd artiffisial' hwn mewn asiantaethau eraill.

Cyflwynodd yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis rai senarios eraill er mwyn helpu i roi cyd-destun ynglŷn â sut y byddai'r fenter yn gweithio yn y dyfodol. O dan y senarios hyn trafododd aelodau'r Pwyllgor eu barn, gan ddangos eu bod yn deall y fenter a'r dull gweithredu yn y dyfodol.
Yn olaf, mynegwyd y pryder y bydd y fenter yn denu sylw negyddol yn y wasg am y bydd heddluoedd yn gweithredu mewn ffordd wahanol i'w gilydd. Cafwyd cyngor cyfreithiol ar hyn am mai Menter Genedlaethol ydyw. Mae'r Coleg Plismona wedi paratoi templedi er mwyn sicrhau y caiff dull gweithredu cyson ei fabwysiadu'n genedlaethol (ond gyda rhai mân amrywiadau lleol).

**<u>Crynodeb y Cadeirydd:</u>**

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y polisi Gofal Cywir Person Cywir (www.college.police.uk/article/rcrp-national-guidance-launched) nid fel cyfyng-gyngor ond fel menter bolisi a all achosi enghreifftiau o gyfyng-gyngor y bydd angen i'r Pwyllgor eu hystyried yn y dyfodol. O ganlyniad, roedd y Pwyllgor yn trin y mater fel un i'w archwilio'n bennaf, a chafodd y Pwyllgor ei friffio gan yr Uwch-arolygydd Mathew Lewis (Arweinydd yr Heddlu dros Ofal Cywir, Person Cywir) ar y rhesymeg dros y polisi, a'i natur.

**4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod**

Mae'n ymwneud â neilltuo cyfrifoldeb am achosion rhwng asiantaethau gwahanol. Yn draddodiadol, mae'r heddlu wedi derbyn cyfrifoldeb am achosion nad ydynt yn ymwneud â materion plismona, er enghraifft, achosion brys iechyd nad ydynt yn gritigol neu wiriadau lles. Mae galwadau o'r fath wedi cael eu derbyn, yn enwedig pan nad oedd y gwasanaeth brys mwyaf priodol ar gael megis pan gafwyd oedi mawr am sawl awr cyn bod ambiwlans ar gael. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'r heddlu wedi llenwi'r bylchau pan nad oedd asiantaethau eraill ar gael neu pan oedd oedi mawr cyn eu bod ar gael. Fodd bynnag, nid materion plismona yw galwadau o'r fath, ac mae hyn yn golygu nad yw'r cyhoedd yn cael y gwasanaeth sydd ei angen gan yr asiantaeth gywir. At hynny, mae pob galwad y mae swyddogion yn ymateb iddi fel arfer yn cymryd sawl awr o amser yr heddlu.

O dan amgylchiadau o'r fath, efallai na fydd gan yr heddlu y pŵer cyfreithiol i wneud yr hyn y mae angen iddynt ei wneud dros y person mewn angen. Er enghraifft, o dan adran 17 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, mae cyfyngiadau caeth ar yr heddlu o ran o dan ba amgylchiadau y caniateir i swyddogion yr heddlu fynd i mewn i eiddo preifat heb warant. O dan adrannau 11, 44 a 58 o Ddeddf Gwasanaeth Tân 2004, mae gan y Gwasanaeth Tân fwy o bwerau na'r heddlu i fynd i mewn i fangre a chymryd camau ataliol.

At hynny, gall swyddogion yr heddlu wneud sefyllfa yn waeth o safbwynt meddygol os byddant yn ymateb i alwad sy'n gofyn am hyfforddiant a chyfarpar meddygol nad oes ganddynt.

Hefyd, mae'r defnydd o swyddogion i ymateb i alwadau nad ydynt yn ymwneud â throseddau yn tynnu amser ac adnoddau'r heddlu oddi wrth ei ddyletswyddau plismona craidd. Mae amser a dreulir yn ymateb, er enghraifft, i aelod o'r cyhoedd sydd wedi cael anaf drwy gwympo yn ei gartref, yn amser na ellir ei dreulio yn atal troseddau, ymchwilio i droseddau neu ymateb i ddioddefwyr troseddau. Fel y gwasanaethau brys eraill, mae adnoddau'r heddlu yn wynebu heriau ar hyn o bryd, ac mae'n rhaid i benderfyniadau anodd gael eu gwneud o ran dyrannu adnoddau fel y bydd yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio'n fwyaf effeithlon mewn ffyrdd sy'n fwyaf buddiol i'r cyhoedd y mae'r heddlu yn ei wasanaethau ac yn gyson â nodau plismona.

Nod Gofal Cywir Person Cywir yw egluro cwmpas cyfrifoldeb yr heddlu a datgan mai dim ond galwadau sy'n ymwneud â dyletswyddau plismona craidd y bydd yr heddlu yn ymateb iddynt. Mae'r polisi yn rhagnodi na fydd yr heddlu yn ymateb i alwadau ynglŷn ag iechyd na llesiant nad ydynt ymwneud â throseddau oni bai bod Erthyglau 2 neu 3 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn gymwys megis bod risg wirioneddol ac uniongyrchol i fywyd neu risg wirioneddol ac uniongyrchol o niwed difrifol neu driniaeth annynol arall.

O dan Gofal Cywir Person Cywir, efallai y bydd gweithredwyr y ganolfan gwasanaethau cyhoeddus, ar ôl gwneud ymholiadau manwl i gadarnhau'r amgylchiadau, yn gwrthod cyfarwyddo swyddogion i ymateb i alwadau nad ydynt yn dod o dan ddyletswyddau plismona craidd, ac y byddant yn ailgyfeirio'r galwr at yr asiantaeth fwyaf priodol. Bydd hyn yn ei hanfod yn golygu bod yr heddlu yn gweithredu'n unol â'i ddyletswyddau plismona ffurfiol ac na fydd mwyach yn cyflawni cyfrifoldebau yr oedd wedi ymgymryd â nhw yn ôl ei ddisgresiwn yn unig.

Cydnabu'r Pwyllgor y byddai'r polisi yn arwain at ryddhau llawer o oriau'r heddlu o bosibl i ganolbwyntio ar ddyletswyddau plismona craidd. Fodd bynnag, cododd aelodau annibynnol o'r Pwyllgor bryderon mawr ynglŷn â'r polisi, yr oedd y tri phryder pennaf fel a ganlyn:

1. **Bylchau mewn Darpariaeth Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd yn fwy**

Roedd y Pwyllgor yn pryderu, wrth i'r polisi hwn gael ei gyflwyno, na fyddai unrhyw adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu/neiltuo i asiantaethau partner i'w galluogi i ymateb i alwadau a fyddai wedi cael eu derbyn cyn hyn gan yr heddlu. Yn niffyg cyllid ychwanegol i asiantaethau partner sy'n cyfateb i'r llwyth achosion cynyddol y byddant yn ei ysgwyddo wrth weithredu Gofal Cywir Person Cywir, mae'n debyg y gall pobl sy'n agored i niwed ac sydd wedi cael anaf difrifol neu argyfwng iechyd meddwl fod mewn sefyllfa lle nad ydynt yn cael cymorth gan y gwasanaethau brys. Os na fydd cynnydd cyfatebol mewn cyllid cyhoeddus i'r gwasanaethau cyhoeddus eraill a fydd yn ymgymryd â chyfrifoldeb eu hasianataeth am achosion y byddai'r heddlu wedi ymdrin â nhw cyn cyflwyno Gofal Cywir Person Cywir wrth i'r polisi gael ei gyflwyno mae'n ymddangos y bydd yn gwaethygu'r diffyg mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ynglŷn â gwiriadau lles, argyfyngau iechyd meddwl, ac argyfryngau meddygol nad ydynt yn gritigol. Mynegir y pryder hefyd y bydd argyfyngau meddygol nad ydynt yn gritigol lle nad yw'r gwasanaethau brys yn ymateb mewn da bryd yn gwaethygu ac yn troi'n argyfyngau meddygol critigol neu hyd yn oed yn arwain at farwolaethau. Ailddatganodd yr Uwch-arolygydd Lewis y sefyllfa o ran y polisi cenedlaethol os bydd Erthygl 2 neu Erthygl 3 yn gymwys mewn achosion o'r fath.

Mae'r pryderon uchod yn berthnasol i'r polisi yn gyffredinol, ond maent yn bryderon arbennig o ddybryd yn ystod y cyfnod pontio tra bydd y polisi yn cael ei gyflwyno, gan y bydd bylchau mewn darpariaeth gwasanaethau brys yn debygol iawn o godi wrth i asiantaethau partner ymaddasu i'w llwyth achosion cynyddol.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gall y diffygion presennol mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus waethygu o ganlyniad i'r polisi mewn ffyrdd a all olygu bod pobl sy'n agored i niwed yn fwy agored nag o'r blaen o ran argyfyngau iechyd a llesiant.

**4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod**

**2. Risg i Enw Da'r Heddlu**

Efallai y bydd y polisi yn arwain at ganlyniad anfwriadol, sef amharu ar gysylltiadau rhwng y cyhoedd a'r heddlu. Wrth i weithredwyr wrthod ymateb i alwadau am gymorth nad ydynt yn cyraedd trothwy Gofal Cywir Person Cywir, mae'n rhesymol rhagweld y bydd y rhai y gwrthodwyd eu galwadau yn teimlo eu bod wedi cael cam. Gall achosion o'r fath hefyd ddenu sylw niweidiol yn y cyfryngau, yn enwedig os bydd y galwadau a wrthodwyd wedyn yn troi'n ddigwyddiadau mwy difrifol neu hyd yn oed angheuol (er gwaethaf y ffaith y bydd yr heddlu yn ymateb os oes risg wirioneddol ac uniongyrchol o niwed difrifol neu farwolaeth).

Tynnwyd sylw'r Cadeirydd at y ffaith bod Gofal Cywir Person Cywir wedi cael sylw negyddol yn y wasg ar sawl achlysur, er enghraifft:
*The Independent*, "Police playing 'chicken' with patients by refusing to answer mental health calls, ambulance chiefs warn", 23 Feb. 24:
www.independent.co.uk/news/health/police-mental-health-calls-uk-b2499782.html

Mae Heddlu Norfolk wedi atal y broses o gyflwyno'r polisi Gofal Cywir Person Cywir dros dro ar ôl trasiedi yn cynnwys tair llofruddiaeth a amheuir, yn Costessey pan fu farw pedwar o bobl. Ffoniodd un o'r rhai a fu farw 999 awr cyn y marwolaethau er mwyn ceisio cymorth am argyfwng iechyd meddwl. Ni chafodd swyddogion eu hanfon, a chafodd ei atgyfeirio at y GIG ar 111.

Mae adroddiadau yn y wasg wedi dweud bod yr heddlu wedi 'anwybyddu' cais y dyn hwn am gymorth:
"Police ignored father's 999 plea for help before he was found dead at Norwich home with daughters and sister-in-law":
www.lbc.co.uk/news/father-999-call-ignored-police-norwich-costessey/

O ganlyniad, ymddengys fod y polisi yn achosi risg i enw da'r heddlu.

**3. Niwed Moesol i Staff y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus**

Efallai y bydd y gofyniad ar staff sy'n derbyn galwadau o dan y polisi i wrthod galwadau brys gan aelodau o'r cyhoedd mewn angen dybryd beri gofid ac, o bosibl, niwed moesol iddynt, gan achosi teimladau o euogrwydd, cywilydd, a dicter. Gall hyn, yn ei dro, beryglu iechyd meddwl y staff.

Er mai prif ddiben y drafodaeth oedd briffio'r Pwyllgor ar y polisi yn hytrach na chodi cyfyng-gyngor mewn perthynas ag ef, roedd gan yr aelodau annibynnol bryderon mawr ynglŷn â'r polisi.

Mae'r Cadeirydd yn argymell y dylai'r broses o gyflwyno ei fap ffordd arfaethedig yn 2024/25 gael ei hatal dros dro nes bod rhagor o dystiolaeth wedi cael ei chasglu o brofiad heddluoedd eraill sydd eisoes wedi rhoi'r polisi ar waith a bod asesiad o'r effeithiau tebygol yn Ne Cymru wedi cael ei gynnal.

**4.2 Technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr**

Rhoddodd yr Arolygydd Ben Gwyer drosolwg o Dechnoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr:

- *Mae technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr yn dechnoleg sydd wedi'i mewnblannu yn nyfeisiau data symudol swyddogion sy'n gallu tynnu llun o destun a chymharu'r ddelwedd honno â chronfa ddata gyfeirio neu restr wylio, yn yr achos hwn, naill ai cronfa ddata'r Ddalfa neu restr wylio o unigolion coll er mwyn adnabod yr unigolyn lle mae Seiliau a Rhesymau yn bodoli i gyfiawnau ei defnyddio.*

Nododd yr Arolygydd Ben Gwyer yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda'r dechnoleg o dan y penawdau canlynol:

- *<u>Deddfwriaeth</u>*
  - *Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth yn bodoli mewn perthynas â thechnoleg Adnabod Wynebau ar hyn o bryd.*
  - *Caiff y data sensitif eu prosesu yn unol at Atodlen 8 i'r Ddeddf Diogelu Data at ddibenion gorfodi'r gyfraith.*
  - *Mae creu delwedd yn dod o dan gyfraith gyffredin mewn ffordd debyg i ddyfeisiau fideo a wisgir ar y corff.*
- *<u>Pwerau</u>*
  - *Nid oes unrhyw bŵer i greu delwedd o destun ar hyn o bryd ac, felly, nid oes unrhyw bŵer ychwaith i swyddogion ddefnyddio grym yn unol ag adran 117 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i gael llun. Nid oes angen cydsyniad ond mae angen lefel o gydymffurfiaeth / cydweithrediad gan y testun.*
- *<u>Polisïau</u>*
  - *Ceir Polisïau, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol, Mandadau Cyfreithiol, Dogfennau GDPR ac asesiadau effaith Diogelu Data penodol ar gyfer technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr.*
  - *Mae'r polisi yn cynnwys y bydd fideo camera a wisgir ar y corff yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob cymhariaeth sy'n defnyddio technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr.*

**4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod**

- *Nid oes unrhyw God Ymarfer nac Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig gan y Coleg Plismona ar hyn o bryd.*

Cododd yr Arolygydd Ben Gwyer y cwestiwn moesegol:

- *O ystyried y cyfrifoldeb a'r wybodaeth a fydd ar gael i swyddogion, a ydym o'r farn bod dogfennau polisi cadarn yn ddigon, a ddylem ystyried Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig, neu a ddylai fod ymgais i sicrhau deddfwriaeth sylfaenol yn y maes hwn?*

Codwyd y cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- A fyddai angen goruchwyliaeth annibynnol, yn sgil y pryderon a godwyd yn astudiaeth Caergrawnt?

Mae'r heddlu yn ceisio dileu'r anghydraddoldebau ar sail oedran, rhywedd a hil a welwyd yn yr astudiaeth flaenorol er mwyn dangos nad yw hyn yn digwydd mwyach. Y broblem yw mai dim ond y rhai sy'n gyfarwydd â'r dechnoleg fyddai'n deall y data a arddangosir yn ymchwiliad y Labordy Ffisegol Cenedlaethol. Dyna pam y byddai Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig yn ddefnyddiol er mwyn helpu i ddeall technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr.

- Beth yw Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig a pham bod ymarfer o'r fath ar gyfer rhai meysydd? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig a deddfwriaeth sylfaenol?

Mae Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig yn cael ei baratoi a'i ddatblygu gan y Coleg Plismona. Mae'n cynnwys canllawiau diffiniol y mae'n rhaid eu hystyried megis materion allanol pan fyddant yn cael eu datblygu, a'u statws. Disgwylir i bob swyddog ac aelod o'r staff ddilyn Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig. Unwaith y bydd ymarfer o'r fath ar waith, pe bai swyddog/aelod o'r staff yn gwyro oddi wrth delerau ymarfer, byddai angen rhesymeg glir dros hynny.

- Pam nad oes Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar waith ar hyn o bryd?

Y broblem o ran technoleg yw, erbyn i'r Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig gael ei lunio'n derfynol, fod yr ymarfer eisoes wedi dyddio am fod y dechnoleg dan sylw yn cael ei diweddaru a'i huwchraddio o hyd.

- Pam nad oes deddfwriaeth sylfaenol?

Byddai angen i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei goruchwylio gan lawer o gyrff gwahanol megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ac ati. Felly, byddai'n cymryd o leiaf ddwy flynedd cyn bod modd cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol, a dyna pam mae Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig yn cael ei ystyried.

- A fyddai Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar gael i'r cyhoedd ac a fyddai deddfwriaeth sylfaenol ar gael i swyddogion er mwyn cyfeirio ato/ati?

Fel y'i nodwyd, caiff Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ei gyhoeddi gan y Coleg Plismona ac mae'n rhoi canllawiau diffiniol i swyddogion yr heddlu – ond mae'r rhain ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Coleg Plismona.

- A fyddai delwedd y person nad yw'n cyfateb i'r fiometreg yn cael ei dileu'n awtomatig?

Byddai'r ddelwedd yn cael ei dileu'n awtomatig, ac ni fyddai'n cael ei storio.

- A fyddech yn dweud mai technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr yw'r defnydd lleiaf dadleuol?

Mae'n debyg mai Adnabod Wynebau yn Ôl-weithredol yw'r defnydd lleiaf dadleuol, byddai Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr yn y canol o bosibl, am mai defnydd wedi'i dargedu ydyw. Adnabod Wynebu'n Fyw yw'r prif ddefnydd dadleuol am ei fod yn prosesu gwybodaeth sensitif yn dorfol h.y. caiff unrhyw un sy'n cerdded heibio i'r camera ei sganio a'i gymharu â'r rhestr wylio ond mae cynllun peilot yr heddlu wedi cael ei roi ar waith yn unol â'r adborth a roddwyd yn flaenorol.

- A ydych yn meddwl mai'r ateb gorau fyddai cael Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar Adnabod Wynebau, yn hytrach nag Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig cyfunol ar dechnoleg Adnabod Wynebau ac Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr?

Dylai fod Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig penodol ar gyfer Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr, yn enwedig pan ddaw'n fater cenedlaethol, sy'n cynnwys defnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu.

- A oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar hyn ai peidio?

Byddai deddfwriaeth sylfaenol yn diogelu swyddogion a byddai deddfwriaeth ar gael i gyfeirio ati pe baent byth yn cael eu holi am eu gweithredoedd. Byddai deddfwriaeth sylfaenol yn rhoi pŵer i'r cyhoedd yn gyfreithiol o ran camau adferol ond unwaith eto nodwyd y byddai'n cymryd blynyddoedd cyn y gellid deddfu.

Rhoddodd yr Arolygydd Ben Gwyer drosolwg o'r Seiliau dros Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr:

**4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod**




Codwyd y cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Pam mae gwahaniaeth rhwng preifat a chyhoeddus?

Mewn mannau preifat mae'n bosibl y byddai lluniau o berthnasau yn y cefndir ac eitemau preifat eraill. Byddai cefndir y ddelwedd yn ymyrryd â'u preifatrwydd.

- A oes angen i'r unigolyn roi cydsyniad i'r llun gael ei dynnu?

Mae angen caniatâd ond mae'n debygol os bydd y swyddog yn mynd i gyfeiriad cartref bydd seiliau dros gael mynediad/arestio. O dan yr amgylchiadau hyn nid oes angen cael caniatâd.

- Mae gan yr heddlu ganiatâd i dynnu'r ffotograff ond ni all atal yr unigolyn rhag gorchuddio ei wyneb, er mwyn ei atal rhag cael ei adnabod?

Nid oes angen i swyddog gael caniatâd i dynnu'r llun ond pe bai swyddog yn symud llaw'r unigolyn byddai hyn yn cael ei ystyried yn ymosodiad cyffredin.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn teimlo nad oedd angen newid telerau defnyddio technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr, boed hynny mewn man preifat neu gyhoeddus.

Dywedodd yr Arolygydd Ben Gwyer wrth y Pwyllgor fod gwybodaeth yn cael ei choladu/chofnodi mewn perthynas â phob defnydd a wneir o dechnoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr er mwyn sicrhau trywydd archwilio clir. Y penawdau yw:

- *Man cyhoeddus neu breifat?*
- *Rheswm dros y Gymhariaeth*
- *Seiliau dros y Gymhariaeth*
- *Ethnigrwydd a ddiffinnir gan y swyddog*
- *Oedran a ddiffinnir gan y swyddog*
- *Rhywedd a ddiffinnir gan y swyddog*
- *Amgylchiadau sy'n cyfiawnhau'r gymhariaeth*
- *A yw camera a wisgir ar y corff yn cael ei ddefnyddio, os nad yw'n cael ei ddefnyddio, pam felly?*
- *Lleoliad y chwiliad*
- *Sgôr y cymariaethau a ddychwelir*
- *Unrhyw gofnodion a adolygir oherwydd y chwiliad*
- *Penderfyniad y swyddog: Cyfatebiaeth neu Dim Cyfatebiaeth*
- *Canlyniad/Gwaredu'r gymhariaeth*
- Os rhoddir y gorau i'r gymhariaeth, y rheswm pam.

Cododd yr Arolygydd Ben Gwyer y cwestiwn moesegol:
*A oes unrhyw fanylion ar goll y byddem yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys at ddibenion goruchwylio a chraffu ar y defnydd o'r dechnoleg er mwyn sicrhau bod y defnydd yn foesegol ac yn gymesur?*
Nid oedd y Pwyllgor yn teimlo bod angen ychwanegu unrhyw beth arall.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr yn defnyddio dyfais symudol sy'n galluogi swyddogion i dynnu ffotograff o berson o ddiddordeb a chadarnau pwy ydyw yn erbyn cronfa ddata'r ddalfa neu restr wylio o unigolion coll heb orfod mynd â'r

**4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod**

person i'r ddalfa er mwyn cyflawni'r dasg hon. Dim ond os bydd gan swyddog 'reswm' a 'sail' dros dynnu ffotograff o'r fath y caiff wneud hynny (https://www.south-wales.police.uk/police-forces/south-wales-police/areas/about-us/about-us/facial-recognition-technology/).

Gwnaeth yr Arolygydd Ben Gwyer annerch y Pwyllgor ynglŷn â thechnoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cwestiynau canlynol:

1. **Fframwaith Cyfreithiol:** A oes angen deddfwriaeth sylfaenol neu godau ymarfer ar yr heddlu ar gyfer technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr, neu a ddylid ystyried Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig a baratoir gan y Coleg Plismona?
2. **Cyhoeddus/Preifat:** A oes angen i'r heddlu gael achos defnydd gwahanol rhwng man cyhoeddus a man preifat ar gyfer defnyddio technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr? (yn benodol o ystyried Erthygl 2 – Yr hawl i fywyd ac Erthygl 8 – Yr hawl i breifatrwydd)
3. **Casglu Data at Ddibenion Atebolrwydd:** A yw'r heddlu yn cofnodi digon o ddata gan swyddogion er mwyn sicrhau goruchwyliaeth effeithiol (e.e. defnydd cymesur o dechnoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr)?

1. **Fframwaith Cyfreithiol**

Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol ynglŷn â'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau gan yr heddlu yn bodoli ar hyn o bryd. Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol sy'n llywodraethu technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr yn cynnwys cyfraith gyffredin ac Atodlen 8 o Ddeddf Diogelu Data 2018. O ran y cwestiwn a oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr, cydnabu'r Pwyllgor y byddai deddfwriaeth o'r fath yn cynnig ffynhonnell o awdurdod hawdd ei nodi i swyddogion wrth iddynt ddefnyddio'r dechnoleg ac y byddai'n cynnig ffordd i'r cyhoedd geisio iawn pe bai'r dechnoleg yn cael ei defnyddio'n anghyfreithlon gan swyddog. Fodd bynnag, dim ond cefnogaeth betrus y gallai'r Pwyllgor ei chynnig am nad oedd yn credu ei fod mewn sefyllfa dda i gynghori ar y mater cyfreithiol hwn.

O ran a oedd angen Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig i lywodraethu'r defnydd o dechnoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr, cadarnhaodd y Pwyllgor y dylai'r Coleg Plismona greu ymarfer penodol ar y defnydd o'r dechnoleg. Er bod ymarfer wedi cael ei gyhoeddi i roi arweiniad ar y defnydd o adnabod wynebau'n fyw (https://www.college.police.uk/app/live-facial-recognition), roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid cyhoeddi ymarfer ychwanegol i roi arweiniad ar y defnydd o dechnoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr.

2. **Cyhoeddus/Preifat**

O ran a oedd angen achos defnydd gwahanol ar gyfer defnyddio technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr mewn mannau preifat a mannau cyhoeddus, cydnabu'r Pwyllgor fod mwy o ddisgwyliad o breifatrwydd mewn mannau preifat megis cartrefi, mannau addoli crefyddol, ac adeiladau meddygol. Fodd bynnag, ym marn y Pwyllgor mae technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr yn debyg iawn i'r defnydd o gamerâu a wisgir ar y corff mewn mannau preifat. O ystyried mai llun o'r pen sy'n llenwi'r rhan fwyaf o'r ffrâm ffotograffig yw ffotograff a dynnir drwy ddefnyddio technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr, mae'r ymyriad cyfochrog â phreifatrwydd yn ymddangos yn gymharol fach i'r hyn a fyddai'n dilyn pe bai camera a wisgir ar y corff yn cael ei ddefnyddio mewn man preifat.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymryd camau, lle y bo modd, i leihau unrhyw ymyriad cyfochrog â phreifatrwydd i'r eithaf. Er enghraifft, dylai'r ffotograff o'r testun gael ei dynnu yn erbyn wal wag neu mewn ffyrdd nad ydynt yn cofnodi manylion y man preifat. Nodwyd hefyd fod y ddelwedd yn cael ei dileu'n awtomatig ar unwaith os nad oes unrhyw gyfatebiaeth rhwng y ddelwedd a'r gronfa ddata ar y ddyfais.

Felly, nid oedd yn ymddangos fel petai technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr yn ymyriad anghymesur â'r hawl i breifatrwydd, a sut bynnag, nid oedd yn ymddangos fel petai'n ymyrryd â'r hawl honno yn agos i'r fath raddau ag y mae'r defnydd presennol o gamerâu a wisgir ar y corff gan yr heddlu yn ei wneud. Ym marn y Pwyllgor, nid oedd angen achos defnydd gwahanol ar gyfer defnyddio technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr mewn mannau preifat.

3. **Casglu Data at Ddibenion Atebolrwydd**

O ran y cwestiwn olaf ynglŷn â'r wybodaeth y dylai swyddog sy'n defnyddio technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr ei chasglu ar adeg ei gweithredu er mwyn sicrhau bod y defnydd ohoni yn cael ei goruchwylio'n effeithol, ni nododd y Pwyllgor unrhyw fath o ddata y dylid ei ychwanegu at y cofnodion manwl sy'n cael eu paratoi ochr yn ochr â phob gweithrediad. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys: Math o leoliad (Cyhoeddus neu breifat?); Rheswm dros y Gymhariaeth; Seiliau dros y Gymhariaeth; Ethnigrwydd a ddiffinnir gan y swyddog; Oedran a ddiffinnir gan y swyddog; Rhywedd a ddiffinnir gan y swyddog; Amgylchiadau sy'n cyfiawnhau'r gymhariaeth; A yw camera a wisgir ar y corff yn cael ei ddefnyddio, os nad yw'n cael ei ddefnyddio, pam felly?; Lleoliad y chwiliad; Sgôr y cymariaethau a ddychwelir; Unrhyw gofnodion a adolygir oherwydd y chwiliad; Penderfyniad y swyddog: Cyfatebiaeth neu Dim Cyfatebiaeth?; Canlyniad/Gwaredu'r gymhariaeth; ac os rhoddir y gorau i'r gymhariaeth, y rheswm pam.

| 4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod |
| --- |
| |

| 5. Grŵp Arwain Moeseg Heddlu'r DU / De Cymru, Gorllewin Lloegr a Llundain (Rhwydwaith Moeseg Heddlu Rhanbarthol) |
| --- |
| Dim diweddariad. |

| 6. Unrhyw Fater Arall |
| --- |
| Cadarnhaodd yr Adran Gyfreithiol fod y mater wedi cael ei drafod gyda'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog o ran y cynnig y gellir estyn aelodaeth aelodau annibynnol o'r Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol am flwyddyn ar y tro, hyd at uchafswm o ddwy flwyddyn ychwanegol ar ôl cwblhau eu cyfnod(au) arferol yn y swydd.<br><br>Cytunwyd ar hyn â'r Pwyllgor a chaiff ei gynnwys yng Nghylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol. |

| 7. Dyddiadau Cyfarfodydd yn 2024 |
| --- |
| 7 Mawrth '24, 13:00PM – 16:00PM<br>13 Mehefin '24, 13:00PM – 16:00PM<br>9 Hydref '24, 13:00PM – 16:00PM<br>19 Rhagfyr 24 13:00 – 16:00pm |